

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Pecyn Swydd ar gyfer y Swyddog Buddion a Gwerth Cymdeithasol

uchelgaisgogledd.cymru

WEDI'I YRRU GAN
FFYNIANT BRO

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Am y swydd | 4 |
| Swydd  Ddisgrifiad | 5 |
| Manylion Person | 7 |
| Ymunwch a'r Tîm | 9 |
| Ein Gwerthoedd | 10 |
| Amserlen Recriwtio | 11 |
| Gweithio i ni | 11 |
| Buddion | 12 |
| Cynllun Twf Gogledd Cymru | 13 |


Am fwy o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â:




Sara jones
Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol
swyddi@uchelgaisgogledd.cymru

# Amser cyffrous i ymuno â'r tîm

Rydym wrth ein bodd eich bod yn ystyried ymuno â thîm Uchelgais Gogledd Cymru. Rydym yn dîm o unigolion angerddol a brwdfrydig sy'n falch o fod yn rhan o ddatblygu economi Gogledd Cymru. Rydym yn gyfrifol am gyflawni portffolio o brosiectau cyfalaf ar draws y rhanbarth, ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Cymeradwywyd y prosiect cyntaf ym mis Rhagfyr 2021 a byddwn yn gweld llawer mwy o brosiectau yn symud ymlaen eleni. Ni fu erioed amser mwy cyffrous i ymuno â'r tîm.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn bartneriaeth gref, sy'n gweithio ar ran Gogledd Cymru i gyflawni yn erbyn gweledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd i'r dyfodol. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi'i sefydlu i gyflawni'r Cynllun Twf, a chefnogi'r uchelgais rhanbarthol ar gyfer economi cryfach, mwy gwydn a chynaliadwy yn y dyfodol.

Ein huchelgais wrth symud ymlaen yw denu buddsoddiad i Ogledd Cymru a chyflawni dyfodol mwy lle wyrchus i bawb sy'n byw ac yn gweithio yma. Bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn creu swyddi newydd â chyflogau uchel, yn denu buddsoddiad ac yn y pen draw yn adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn ein cymunedau, ar gyfer pobl ifanc ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn gweithio'n agos fel tîm ac wedi datblygu set o werthoedd sy'n ategu sut rydymyn gweithio a'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan eraill. Rydym yn uchelgeisiol, rydym yn grymuso ac yn cefnogi ein gilydd i lwyddo, mae gennym uniondeb ac rydym yn gwneud fel y dywedwn ac rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi pobl a'u safbwyntiau wrth i ni lunio dyfodol gwych i Ogledd Cymru. Gobeithiwn y byddwch yn ystyried gwneud cais am y swydd hon a gobeithio y byddwch yn ymuno â ni ar y daith.



**Cyng. Dyfrig Siencyn**

Cadeirydd y Bwrdd Uchelgais



**Alwen Williams**


Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru

# Am y swydd

## Swyddog Buddion a Gwerth Cymdeithasol

Bydd y swydd yn rhan o Dîm Gweithredol y Swyddfa Rheoli'r Portffolio. Mae'r Tîm Gweithredol wedi arwain ar gais llwyddiannus am Gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi a chyd-fynd â chyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru, mae hyn yn cynnwys ffrwd gwaith buddion a gwerth cymdeithasol, y bydd y Swyddog Buddion a Gwerth Cymdeithasol yn arwain arno. Mae adrodd ar fuddion a gwerth cymdeithasol yn allweddol ar gyfer llwyddiant y Cynllun Twf.

Bydd y Swyddog Buddion a Gwerth Cymdeithasol yn rheoli ac yn gweithredu teclyn monitro ar-lein ar gyfer buddion ac gwerth cymdeithasol. Bydd y swydd unigryw hon yn sicrhau bod manteision buddsoddiadau cyfalaf mawr sy'n cyd-fynd â'r Weledigaeth Twf yn cael eu gwireddu'n lleol trwy ddylunio prosiect, caffael, gwerth cymdeithasol a gwireddu buddion, yn ogystal ag ymgorffori buddion a gwerth cymdeithasol a gesglir ym mhrosesau Uchelgais Gogledd Cymru. Bydd y rôl hon yn arwain ar rannu arferion gorau ar wireddu buddion a gwerth cymdeithasol er mwyn sicrhau bod buddion buddsoddiadau'n cael eu gwireddu'n lleol, gan gynnwys datblygu canllawiau a darparu sesiynau hyfforddi i bartneriaid.



Gan adrodd i'r Uwch Swyddog Gweithredol, bydd y Swyddog Buddion a Gwerth Cymdeithasol yn gweithio ar draws y Swyddfa Rheoli'r Portffolio gan weithio'n agos gyda Rheolwr Rhaglen y Cynllun Twf ar wireddu buddion a gyda'r Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol ar werth cymdeithasol. Bydd gan ein hymgeisydd delfrydol wybodaeth dda a dealltwriaeth o werth cymdeithasol a buddion cymunedol, a dealltwriaeth o brosesau caffael y sector cyhoeddus. Mae hanes profedig o gydweithio'n effeithiol a mewn phartneriaeth gydag ystod o randdeiliaid yn hanfodol, ac mae profiad o ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gadwyn gyflenwi yn hanfodol. Mae sgiliau trefnu rhagorol, a'r gallu i ysgogi ac ysbrydoli eraill hefyd yn hanfodol.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

## Pwrpas y swydd


- Arwain ar wneud y mwyaf o'r gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol ddaw yn sgil gweithgaredd caffael.
- Datblygu a chynnal perthnasau effeithiol gyda'r partneriaid allweddol a'r holl gontractwyr.
- Monitro bod ymrwymiadau gwerth cymdeithasol yn cael eu cyflawni fel yr amlinellwyd, gan fodloni'r amserlenni ac ansawdd gofynnol.
- Arwain ar fuddion ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru, rheoli'r platfform ar-lein Impact.

## Cyfrifoldeb am swyddogaethau

- Asedau swyddfa ac offer symudol arall yn cynnwys gliniaduron a ffonau symudol
- Rheolaeth matrics o staff ac adnoddau (gan gynnwys cyllidebau) ar draws timau prosiectau gan gynnwys dyrannu a rheoli gwaith.

| | |
|---|---|
| Cyflog | £35,411 - £37,261 |
| Oriau | Hyd at 37 awr yr wythnos* |
| Cytundeb | 12-15 mis |
| Lleoliad | Cyffordd Llandudno (hybrid gyda gweithio o gartref) |

* Mae'r swydd yn llawn amser, ond byddwn yn ystyried ceisiadau gweithio'n hyblyg ar gyfer yr ymgeisydd cywir
** Mae'r swydd wedi ariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin.



# Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

## Gwerth Cymdeithasol

- Arwain ar barhau i ddatblygu gwerth cymdeithasol a effeithiau llesiant yn y broses gaffael.
- Gwreiddio cyflawni gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol mewn gweithgaredd caffael.
- Cynnal rhwydweithiau effeithiol o randdeiliaid allanol a phartneriaid cymunedol i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a fydd yn mynd i'r afael ag ymrwymiadau Gwerth Cymdeithasol cytundebol yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Cynnal dealltwriaeth gref o'r ymrwymiadau Gwerth Cymdeithasol ar gontractau, monitro cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau hyn i sicrhau y cânt eu cyflawni a'u bod yn cwrdd ag amserlenni gofynnol
- Sicrhau darpariaeth ar ymrwymiadau gwerth cymdeithasol i gwrdd â therfynau amser gofynnol (e.e. ymweliadau safle, profiad gwaith, gweithdai, cyflogaeth a chymorth sgiliau, prosiectau gwirfoddoli ac ati)
- Cynorthwyo i ddatblygu perthnasoedd gwaith cryf gyda rhanddeiliaid a'r gadwyn gyflenwi ar draws Gogledd Cymru a gweithio ochr yn ochr â'r Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol a defnyddio cyfleoedd caffael a chynllunio y Cyngor fel mecanwaith i gynhyrchu gwerth cymdeithasol.
- Cynorthwyo i gydweithio â thimau ac asiantaethau mewnol ac allanol, er mwyn sicrhau bod ein cadwyn gyflenwi yn gyfarwydd â'n prosesau a'n gofynion gwerth cymdeithasol sy'n ymwneud â gwahanol gontractau.
- Defnyddio Fframwaith Gwerth Cymdeithasol ac Egwyddorion Caffael Gogledd Cymru i gasglu, mesur a rheoli data ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau.
- Cynorthwyo i gefnogi'r tîm i gynhyrchu adroddiadau effaith ar werth cymdeithasol yn ogystal ag cynhyrchu adroddiadau gan ddefnyddio Porth Gwerth Cymdeithasol - TOMs Cenedlaethol i'w dosbarthu i gleientiaid, partneriaid ac i gefnogi ceisiadau. - defnyddio'r system Impact ar-lein.
- Gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog wrth fonitro a chydlynu'r holl gyfleoedd gwerth cymdeithasol.

## Buddion

- Arwain ar weithredu Strategaeth Gwireddu Buddion Uchelgais Gogledd Cymru, gan sicrhau bod yr hyn a ddysgir drwy gyflawni, monitro a gwerthuso'r strategaeth yn cael ei ddefnyddio a'i gynnwys mewn prosesau tîm
- Adnabod, monitro ac gwireddu buddion fel amlinellir yn yr Achosion Busnes Rhaglen a Phortffolio.
- Rheoli'r system Adrodd Impact, gan adolygu a monitro'r system yn gyson i sicrhau ei bod yn rhwydd i'w defnyddio, ac adnabod a datrys unrhyw broblemau.
- Arwain ar ddatblygu dulliau a thechnegau ar gyfer dadansoddi data a darlunio data, gan weithio gydag uwch reolwyr, ac arweinwyr rhaglen/prosiect i sicrhau bod y gwaith dadansoddi yn cefnogi anghenion y sefydliad.
- Arwain ar gynhyrchu adroddiadau chwarterol a blynyddol clir a gweledol cymhellol, gan weithio gydag arweinwyr rhaglenni/prosiectau i sicrhau bod data yn y system yn ddilys ac yn gyfredol.
- Sicrhau bod systemau data yn cydymffurfio â'r holl reoliadau (e.e. GDPR) ac wedi'u cysylltu'n briodol i systemau sefydliadol eraill.
- Sicrhau bod data manwl gywir yn cael ei gofnodi ar draciwr y system Impact er mwyn galluogi cynhyrchu adroddiadau mewnol ac allanol gan / ar gyfer yr uwch dîm arweinyddiaeth a chefnogi datblygiad parhaus Strategaethau a Chynlluniau Ymgysylltu Gwerth Cymdeithasol lleol.



## Cyfathrebu

- Cefnogi i dynnu sylw at newyddion da a chyflawniadau sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol i'r tîm / cylchlythyrau / cyfathrebu ac yn y blaen. Ysgrifennu erthyglau a thynnu lluniau i'w hanfon ymlaen at yr Swyddog Arweiniol Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol i rannu ar draws y gwahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

## Strategol

- Cefnogi'r gwaith o gydlynu, datblygu a chyflawni Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru.
- Cefnogi'r gwaith o gydlynu a rheoli'r rhyng-ddibyniaethau ar draws rhaglenni a phrosiectau ar y cyd.
- Bod yn bencampwr gwerthoedd ac egwyddorion caffael Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar draws y bartneriaeth

## Swyddfa Rheoli Portffolio

- Gweithio gyda'r Rheolwr Caffael a Gwerth Cymdeithasol a Rheolwyr Rhaglen y Cynllun Twf i sicrhau bod Adnoddau digonol mewn lle ar draws y Swyddfa Rheoli Portffolio i gefnogi gyda gwerth cymdeithasol a gwireddu buddion.
- Gweithio'n agos gyda'r timau Rhaglen a Phrosiect yn cynnwys y Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol i sicrhau bod gwerth cymdeithasol a buddion yn cael eu gwreiddio yn holl waith Uchelgais Gogledd Cymru.

## Adrodd ac Atebolrwydd

- ·Paratoi a chydlynu adroddiadau ar weithgaredd buddion a gwerth cymdeithasol.

## Llysgenhadol

- Gweithredu fel lladmerydd dros y Weledigaeth Twf a'r rhanbarth.
- Datblygu a rheoli perthnasau allanol effeithiol ar bob lefel.
- Bod yn bencampwr gwerth cymdeithasol a buddion ar draws partneriaeth Uchelgais Gogledd Cymru.

## Cydymffurfiaeth ac Ymddygiad

- Gweithio yn unol â'r holl bolisïau a gweithdrefnau sydd wedi'u gosod a'r gyfraith e.e. ariannol, cydraddoldeb ac iechyd a diogelwch.
- Arddangos y safonau uchaf o ymddygiadau a gwerthoedd proffesiynol, yn unol â gwerthoedd sefydliadol Uchelgais Gogledd Cymru.

# Manylion Person

| Meinir Prawf | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau Addysgol / Proffesiynol** | | |
| • Addysg i lefel gradd neu brofiad cyfatebol mewn maes perthnasol | ☑ | |
| • Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus perthnasol | ☑ | |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | | |
| • Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o fuddion a gwerth cymdeithasol | ☑ | |
| • Sgiliau arweinyddiaeth, sgiliau rhyngbersonol a sgiliau cyfathrebu effeithiol | ☑ | |
| • Profiad o ymgysylltu gyda'r cyhoedd/rhanddeiliaid yn effeithiol | ☑ | |
| • Dealltwriaeth o brosesau caffael sector cyhoeddus | ☑ | |
| • Dealltwriaeth o reoli perfformiad | ☑ | |
| • Y gallu i ddadansoddi materion cymhleth a mabwysiadu dulliau creadigol o ddatrys problemau | ☑ | |
| • Llythrennog mewn TGCh a data, yn gyfforddus gyda Word, PowerPoint, Excel a chronfeydd data perthnasol | ☑ | |
| • Gwybodaeth am Uchelgais Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru | | ☑ |
| • Dealltwriaeth o ranbarth Gogledd Cymru a'r nodweddion cymdeithasol ac economaidd | | ☑ |
| • Dealltwriaeth o brosesau llywodraeth leol a llywodraeth ganolog | | ☑ |
| **Profiad** | | |
| • Profiad o wireddu buddion a/neu gyflawni gwerth cymdeithasol neu fuddion cymunedol drwy weithgarwch caffael | ☑ | |
| • Profiad o weithio mewn partneriaeth | ☑ | |
| • Hanes cadarn o weithio'n effeithiol ac mewn cydweithrediad a phartneriaeth â chydweithwyr, rhanddeiliaid ac ystod o asiantaethau partner | ☑ | |
| • Profiad o ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gadwyn gyflenwi | ☑ | |
| • Profiad o weithio mewn amgylchedd rhaglen/prosiect | ☑ | |
| • Profiad o reoli contractau a rheoli prosiectau | | ☑ |

# Manylion Person

| Meini Prawf | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Nodweddion Personol** | | |
| • Yn gallu cymell dy hun ac yn gryf dan bwysau | ☑ | |
| • Yn ymroddedig ac yn frwdfrydig | ☑ | |
| • Yn meddwl yn arloesol | ☑ | |
| • Yn hyblyg wrth reoli blaenoriaethau a gofynion gwaith sy'n cyd-daro | ☑ | |
| • Sgiliau trefnu ardderchog | ☑ | |
| • Gallu pendant i gwrdd â therfynau amser a thargedau | ☑ | |
| • Y gallu i gymell ac ysbrydoli eraill i weithredu | ☑ | |
| **Gofynion Iaith** | | |
| • Gwrando a Siarad - Yn gallu ymdrin â holl agweddau'r swydd yn llafar ac mewn modd hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. | | ☑ |
| • Darllen a Deall - Yn gallu defnyddio a dehongli unrhyw wybodaeth yn gywir o amrywiaeth eang o ffynonellau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn gallu ymdrin â phob agwedd o'r swydd. | | ☑ |
| • Ysgrifennu - Yn gallu cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn hollol hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio'r iaith a'r arddull fwyaf priodol i gwrdd ag anghenion y darllenydd. | | ☑ |

# Ymunwch a’n tîm

A oes gennych chi angerdd dros Ogledd Cymru ac awydd i weld y rhanbarth yn tyfu ac yn cyflawni ei botensial? Ydych chi'n frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn chwaraewr tîm?

Os felly, fe allech chi fod y person rydyn ni’n chwilio am i ymuno â'n tîm.

Fel partneriaeth o’r chwech awdurdod lleol, dwy brifysgol a dau goleg yng Ngogledd Cymru, mae cydweithio a partneriaeth yn greiddiol i’n gwaith fel tîm. Rydym yn chwilio am unigolyn sydd â sgiliau rhyngbersonol rhagorol, sy’n frwd dros weithredu i’r rhanbarth ac yn gallu datblygu a chynnal perthnasoedd ar draws partneriaid i yrru'r prosiectau yn eu blaenau.

Er bod gan bob rôl o fewn y tîm ei ffocws ei hun, bydd disgwyl i chi gyfrannu at waith ehangach y tîm a llwyddiant y tîm cyfan. Rydym yn chwilio am chwaraewyr tîm sy'n gallu arwain eu meysydd eu hunain ond hefyd yn cefnogi eu cydweithwyr i gyflawni. Yn gyfnewid am hyn, fe welwch lwyth gwaith amrywiol a diddorol gyda chyfleoedd i gyfrannu ar draws ein portffolio.

Mae datblygiad proffesiynol a phersonol yn bwysig i ni. Bydd y tîm yn Uchelgais Gogledd Cymru yn rhoi amgylchedd gefnogol i chi barhau â'ch datblygiad gyda nifer o gyfleoedd datblygu ffurfiol ac anffurfiol ar gael. Rydym yn annog ein tîm i ddilyn cyfleoedd datblygu proffesiynol ac rydym yn chwilio am unigolion sydd â'r awydd i ddysgu a gwella.

Mae rhai o’n rolau yn gofyn am sgiliau Cymraeg, fodd bynnag, rydym yn chwilio am unigolion sy’n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, sydd ag empathi at y diwylliant Cymreig ac sydd wedi ymrwymo i wella eu sgiliau ieithyddol. Os yw hyn yn swnio fel chi, edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Mae Gogledd Cymru yn lle ardderchog i fyw a gweithio, beth am chwarae rhan allweddol wrth lunio ei ddyfodol?



**Hedd Vaughan-Evans**

Pennaeth Gweithrediadau
Uchelgais Gogledd Cymru

# Ein Gwerthoedd

**Rydym yn Uchelgeisiol**

Rydym yn ymdrechu i gyflawni'r gorau ar gyfer Gogledd Cymru. Rydym yn arweinwyr yn ein meysydd, ffurfwyr barn a dylanwadwyr, ac rydym yn herio meddwl confensiynol. Rydym yn dilyn safonau uchel, yn anelu at fod yn ein gorau, ac yn datblygu ein hunain yn broffesiynol yn barhaus.

**Rydym yn gweithio ar y cyd**

Rydym yn rhannu gwybodaeth, sgiliau, gwybodaeth a chefnogaeth ac yn sicrhau ein bod yn rhoi gwybod i gydweithwyr. Rydym bob amser yn helpu ein gilydd, yn hwyluso cyfleoedd i Ogledd Cymru ac yn cydnabod bod ein heffaith ar y cyd yn fwy sylweddol na'n heffaith unigol.

**Rydym yn gwneud y peth iawn**

Rydyn ni'n gwneud y peth iawn, nid yr hyn sy'n hawdd. Rydym yn herio ymddygiad anfoesegol ac yn siarad pan nad yw pethau'n teimlo'n iawn. Rydym yn barchus, yn deg ac yn ystyriol a gallwn ymddiried ynddo i gyflawni ymrwymiadau y cytunwyd arnynt ar amser.

**Rydym yn gwneud gwahaniaeth**

Rydym yn mynd ar drywydd cyfleoedd i wneud gwahaniaeth yng Ngogledd Cymru. Rydym yn hyrwyddo'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ac yn cefnogi elusennau rhanbarthol. Rydym yn diogelu'r amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i leihau ein hôl troed.



# Amserlen Recriwtio

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad cau** | Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn | 06/11/2023 |
| **Rhestr Fer** | Byddwn yn anelu i gysylltu gyda y rhai sydd ar y rhestr fer erbyn y dyddiad yma gyda manylion dyddiadau yr asesiadau a'r cyfweliad. | erbyn 17/11/2023 |
| **Asesiadau** | Bydd asesiadau yn cymryd lle cyn y cyfweliad. Byddwch yn derbyn y manylion os ar y rhestr fer. | erbyn 23/11/2023 |
| **Cyfweliadau** | Bydd union ddyddiad/amser yn cael ei gadarnhau ar lunio y rhestr fer. | wythnos yn cychwyn 27/11/2023 |

# Gweithio i ni

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei letya gan Gyngor Gwynedd* fel ein corff cyflogi. Felly, tra bydd y swydd gyda Uchelgais Gogledd Cymru bydd y cytundeb gwaith gyda Chyngor Gwynedd.

Dilynwch y linc yma i gysylltu â phorth recriwtio Cyngor Gwynedd. Bydd gofyn i chi greu cyfrif i gyflwyno cais.

Cofiwch lenwi pob adran o'r ffurflen. Mae croeso i chi gyflwyno eich ffurflen yn Gymraeg neu Saesneg.

Ar ôl y dyddiad cau bydd panel asesu yn asesu eich cais yn erbyn y gofynion a nodir yn y fanyleb bersonol. Cofiwch sicrhau fod eich datganiad personol yn cyfarch yr holl ofynion hanfodol sydd wedi ei gosod allan yn y manylion person.

Bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad, bydd manylion y cyfweliadau yn cael eu hanfon o leiaf wythnos ymlaen llaw.

Byddwn yn gofyn i ymgeiswyr gwblhau tasg cyn y cyfweliad (bydd manylion llawn yn cael eu cynnwys yn y llythyr cyfweliad).

Sylwch na fydd ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried

*gall trefniadau yn y dyfodol newid wrth sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru.

# Buddion

**Mae nifer o fuddion o weithio i Uchelgais Gogledd Cymru, mae manylion llawn ar gael yma. Dyma grynodeb o'r prif fuddion:**

### Cynllun Pensiwn

Mae Uchelgais Gogledd Cymru drwy'r Cyngor yn gweithredu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae gwybodaeth am y gronfa ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd

### Gwyliau Blynyddol

Mae gan weithwyr y Cyngor hawl i rhwng 21 a 30 diwrnod o wyliau'r flwyddyn yn ddibynnol ar raddfa'r swydd. Yn ogystal, mae gan weithwyr hawl i 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus a 3 ½ diwrnod arall

### Absenoldebau Arbennig

Yn ogystal â'r gwyliau uchod, gellir caniatáu absenoldeb gyda thâl mewn amgylchiadau arbennig megis symud tŷ, profedigaeth, mynychu apwyntiadau meddygol, ymgymryd a dyletswyddau cyhoeddus

### Cydbwysedd bywyd a gwaith

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cynnig nifer o gyfleoedd gweithio'n hyblyg er mwyn helpu gweithwyr i daro cydbwysedd iach rhwng bywyd cartref a gwaith. Gall gweithiwr fanteisio o'r trefniadau canlynol:

- Cynllun gweithio oriau ystwyth
- Absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu
- Absenoldeb ychwanegol heb dâl i rieni a gofalwyr
- Gweithio'n hyblyg

### Hyfforddiant a datblygiad

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gweld gwerth uchel mewn buddsoddi yn ei adnodd pwysicaf - sef ei weithwyr. Gall pob gweithiwr ddisgwyl:

- Proses anwytho ffurfiol ac adolygiadau perfformiad parhaus
- Ystod eang o gyfleodd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol ·
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

## Nod

- Adeiladu economi fwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yng Ngogledd Cymru.
- Adeiladu ar ein cryfderau, hybu cynhyrchiant wrth fynd i'r afael â heriau tymor hir a rhwystrau economaidd i sicrhau twf cynhwysol.
- Hyrwyddo twf mewn modd graddadwy, cynhwysol a chynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Buddion

- Twf mewn ffyniant rhanbarthol: gwella cynhyrchedd, mewnfuddsoddiad a chreu swyddi newydd.
- Creu swyddi gwell: trwy ymyraethau wedi ei dargedu mewn sectorau gwerth uchel.
- Gweithlu mwy medrus: drwy gefnogi sgiliau a mentrau hyfforddi ac ymyraethau sy'n targedu sectorau gwerth uchel.
- Gwella safon byw: twf cynhwysol sy'n darparu cyfleoedd, yn lleihau tlodi, anghydraddoldeb ac amddifadedd.

### BUDDSODDIAD

Targed buddsoddi Cynllun Twf:

**£240m**

Cyfanswm Targed Buddsoddiad Cynllun Twf

**£1bn**

### AMCANION GWARIANT

Creu hyd at

**4,200**

o swyddi newydd

Cynhyrchu hyd at

**£2.4bn**

o GVA ychanegol net





# Ein Rhaglenni

## Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

Bydd y rhaglen yn hyrwyddo ac yn cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant yn y sectorau Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, gan adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y rhanbarth.

## Cysylltedd Ddigidol

Bydd y rhaglen yn gwella gallu ein rhanbarth i ddatblygu technolegau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau y gallwn ateb y galw cynyddol am gysylltedd ddigidol ac elwa o gysylltedd cyflym, o ansawdd uchel.

## Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch

Bydd y rhaglen hon yn hyrwyddo arloesedd a masnacheiddio technoleg yn y diwydiant gweithgynhyrchu, gan adeiladu ar gryfder presennol y sector yn ein rhanbarth.

## Tir ac Eiddo

Bydd y rhaglen hon yn mynd i'r afael â heriau tir ac eiddo yn y rhanbarth, yn gwireddu cyfleoedd ac yn adeiladu ar ein cryfderau.

## Ynni Carbon Isel

Bydd y rhaglen yma'n sicrhau y budd o ddatblygu prosiectau ynni carbon isel yn y rhanbarth, gan gryfhau safle Gogledd Cymru fel lleoliad blaengar ar gyfer y sector ynni carbon isel.

# EIN PARTNERIAID

# £240M O GYLLID Y CYNNLUN TWF GAN

uchelgaisgogledd.cymru
swyddi@uchelgaisgogledd.cymru